

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAUHYBRID IN THE COUNCIL CHAMBER - CIVIC OFFICES, ANGEL STREET, BRIDGEND, CF31 4WB AR DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cyngorydd RM Granville – Chairperson

A R Berrow  
D M Hughes  
A Wathan

S Easterbrook  
M R John  
R Williams

S J Griffiths  
MJ Kearn

M L Hughes  
J E Pratt

Yn Bresennol yn Rhithiol

S Griffiths

R Williams

M John

M Kearn

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

C L C Davies, H Griffiths, D T Harrison a/ac R J Smith

Swyddogion:

Rhodri Davies  
Gillian Dawson  
Lee Evans  
Craig Flower  
Stephen Griffiths  
Steven Jenkins  
Robert Morgan  
Jonathan Parsons  
Oscar Roberts

Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu  
Lawyer - Planning  
Uwch Swyddog Cynllunio  
Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol  
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau  
Development Control Team Leader  
Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth  
Rheolwr Grŵp Datblygu  
Business Administrative Apprentice - Democratic Services

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024**

Euan Sexton  
Philip Thomas  
Leigh Tuck

Senior Planning Officer  
Prif Swyddog Cynllunio  
Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth

**Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd Y Cynghorydd Alan Wathan ddiddordeb personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.

Datganodd Y Cynghorydd Alan Wathan ddiddordeb personol yn eitem 8 ar yr Agenda fel Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, nad yw'n cymryd rhan mewn unrhyw fater yn ymwneud â chynllunio.

Datganodd Y Cynghorydd Jonathan Pratt ddiddordeb sy'n rhagfarnu yn eitem 8 ar yr Agenda gan ei fod yn adnabod yr Ymgeisydd ers sawl blwyddyn. Gadawodd Y Cynghorydd Pratt y cyfarfod er mwyn i'r eitem hon gael ei hystyried.

Datganodd Y Cynghorydd Richard Williams ddiddordeb personol yn eitem 9 ar yr Agenda gan ei fod yn adnabod yr Ymgeisydd.

**1. Ymweliadau Safle**

Decision Made	PENDERFYNWYD:	Cadarnhau dydd Mercher 07/08/24 ar gyfer arolygiadau safle arfaethedig oedd yn codi yn y cyfarfod, neu'n cael eu hadnabod cyn cyfarfod y Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd.
Date Decision Made	27 Mehefin 2024	

**2. Cymeradwyaeth Cofnodion**

Decision Made	PENDERFYNWYD:	Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau dyddiedig 10 Mai 2024 fel gwir gofnod manwl gywir.
Date Decision Made	27 Mehefin 2024	

**3. Siaradwyr Cyhoeddus**

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024**

Decision Made	Cyfeiriodd y siaradwyr canlynol o blith y cyhoedd at y ceisiadau y cyfeirir atynt isod:  Y Cynghorydd Steven Bletsoe (Aelod o ward) - P/24/39/FUL - 11 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AX  Richard Hopkins (ymgeisydd)  Mark Sage (gwrthwynebydd) - P/24/206/FUL – 1, South View, Pontycymer, CF32 8LE (Darllenodd y Cyfreithiwr Planning ddatganiad Mr. Sage yn ei absenoldeb).  Elena Davies (ymgeisydd)
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

**4. Taflen Gwelliant**

Decision Made	PENDERFYNWYD:	Y byddai'r Cadeirydd yn derbyn Taflen Ddiwygio'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnol y Cyngor, er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth sylwadau a diwygiadau hwyr y mae angen eu cynnwys
Date Decision Made	27 Mehefin 2024	

**5. Canllawiau Pwyllgor Datblygiad a Rheoli**

Decision Made	PENDERFYNWYD:	Nodir yr adroddiad yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau
Date Decision Made	27 Mehefin 2024	

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024**

**6. P/24/39/FUL - 11 Stryd y Parc Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AX**

Decision Made	<p>PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:</p> <p>Cynnig:</p> <p>Newid y llawr cyntaf o fod yn unedau ar osod tymor byr (dosbarth defnydd C6) i Dŷ Amfeddiannaeth 7 llofft (sui generis) a chadw 3 uned ar osod tymor byr ar wahân ar y llawr gwaelod (dosbarth defnydd C6).</p> <p>Yn amodol ar gynnwys y Nodyn Cyngorol canlynol:-</p> <p>'Fel y cyfeirir ato gan Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr, ac fel y trafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygiadau, gwahoddir yr ymgeisydd i gysylltu gyda Heneb - Ymddiriedolaeth Archeoleg Cymru i ymchwilio i bresenoldeb twnnel o dan y ddaear rhwng yr adeilad hwn a Newcastle Hill.'</p>
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

**7. P/23/148/FUL - Tir ym Mharc Crescent a Brocastle Avenue Waterton Pen-y-bont ar Ogwr CF31 3XU**

Decision Made	<p>PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:</p> <p>Cynnig:</p> <p>Codi adeilad ar gyfer paratoi, cynnal a chadw a phrofion MOT (Dosbarth B2/B8) a swyddfeydd cysylltiedig, iard storio allanol, ardaloedd llwytho a dadlwytho, parcio, golchi ceir, tirlunio, ailraddio a gwaith cysylltiedig.</p> <p>Yn amodol ar gynnwys yr amod ychwanegol canlynol yn rhan o'r caniatâd:</p> <p>27. Ni ddylai unrhyw ddatblygiad, gan gynnwys unrhyw glirio safle pellach ddigwydd hyd nes i ddatganiad dull ysgrifenedig ar gyfer clirio safle, gan ddilyn argymhellion a chanlyniadau Gwerthusiad Cychwynnol</p>
---------------	---

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024**

	<p>Ecolegol gan Soltys Brewster - Chwefror 2023 a'r Datganiad Dull Coedyddiaeth gan ArbTS dyddiedig 2023 fod wedi cael eu cyflwyno a'u cytuno arnynt yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Bydd pob gwaith clirio yn dilyn y datganiad dull y cytunwyd arno yn fanwl.</p> <p>Rheswm: Er mwyn osgoi amheuaeth a dryswch ynghylch natur a maint y datblygiad a gymeradwywyd ac yng nghyd-destun presenoldeb gweledol y cyfleuster ac fel cyfleuster preswyl ac i hyrwyddo cadwraeth byd natur.</p>
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

**8. P/24/206/FUL - 1, Golygfa Ddeheuol, Pontycymer CF32 8LE**

Decision Made	<p>PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:</p> <p>Cynnig:</p> <p>Cadw'r breswylfan yn y garej dwbwl presennol</p>
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

**9. Apeliadau**

Decision Made	<p>(1) Nodi'r apeliadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y'i dengys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.</p> <p>(2) Y nodir bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r apêl ganlynol, wedi pennu y dylid cynnal yr Hysbysiad Gorfodi:-</p> <p>Apêl Rhif. – CAS-02897-L2J7K9 (1992)</p> <p>Pwnc yr Apêl - Defnydd anawdurdodedig o'r tir: Tir cyfagos i Bryn Llefrith Farm, Maesteg.</p>
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

**PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2024**

--	--

**10. Rhestr Hyfforddiant**

Decision Made	PENDERFYNWYD:	Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn amlinellu'r Rhaglen Hyfforddi Aelodau ar gyfer y misoedd sydd i ddod
Date Decision Made	27 Mehefin 2024	

**11. Materion Brys**

Decision Made	Nid oedd unrhyw eitemau brys
Date Decision Made	27 Mehefin 2024

Er mwyn edrych ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn [dda](#):

Daeth y cyfarfod i ben am 11.34am.